Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Goleg Llanymddyfri**
**Ffordd y Frenhines**
**Llanymddyfri**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA20 0EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu yn ôl yr adran hon yw adrodd am gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013**

## Cyd-destun

Ysgol breswyl ac ysgol ddydd annibynnol gydaddysgol a sefydlwyd ym 1848 yw Coleg Llanymddyfri. Lleolir yr ysgol yn nhref Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion o bedair i 18 oed. Mae'r adran baratoadol, ar gyfer disgyblion o bedair i 11 oed, ac adran uwch yr ysgol mewn adeiladau ar wahân ar yr un safle.

Mae 294 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 69 o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol. Yn yr ysgol uwchradd, mae 225 o ddisgyblion gan gynnwys 80 o fyfyrwyr y chweched dosbarth. Bechgyn yw bron i ddwy ran o dair o'r disgyblion, er bod y gyfran yn amrywio rhwng grwpiau oed gwahanol.

Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r ardal leol ehangach yn ymestyn o Lanelli, Rhydaman a Llanbedr Pont Steffan i mewn i Sir Gaerfyrddin a thuag at Sir Benfro. Daw lleiafrif o'r preswylwyr o weddill Cymru, rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thramor.

Mae rhyw 6% o'r disgyblion, bron pob un ohonynt yn yr ysgol uwchradd, yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion, yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn bennaf, yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig llai nag 8% o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol, a thua 6% o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd, yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth.

Mae 49 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Anawsterau dysgu penodol, fel dyslecsia a dyspracsia, sydd gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan unrhyw un o'r disgyblion.

Mae'r ysgol baratoadol yn ystyried derbyn disgyblion trwy ddefnyddio profion safonol cenedlaethol. Caiff disgyblion sy'n dymuno mynd i'r ysgol uwchradd eu hasesu mewn Saesneg, mathemateg a rhesymu dieiriau. Disgwylir i ddisgyblion sy'n dymuno cael eu derbyn ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 10 allu ennill o leiaf wyth cymhwyster TGAU gradd C neu'n uwch. Disgwylir i fyfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Flwyddyn 12 fod wedi ennill chwe chymhwyster TGAU neu fwy gradd C neu'n uwch.

Saesneg yw iaith gwersi. Mae'r ysgol yn addysgu Cymraeg fel ail iaith i bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol baratoadol. Yn yr ysgol uwchradd, addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, ac fe'i cynigir fel dewis i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i Flwyddyn 13.

Yn Hydref 2006 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y warden (pennaeth) presennol yn Ebrill 2012. Yn dilyn gweithdrefnau diddymu yng Ngorffennaf 2012, sefydlwyd Bwrdd Llywodraethwyr newydd i ddisodli'r Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol.

Oherwydd ystyriaethau cyfreithiol diddymu, nid yw'r un aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol yn gysylltiedig â'r cwmni newydd. Dim ond yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf y rhoddwyd y wedd derfynol ar aelodaeth, strwythur a chylch gorchwyl y Bwrdd Llywodraethwyr newydd a'i is-bwyllgorau.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

## Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad da yn gyson mewn arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16;
- y cynnydd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei wneud ym mwyafrif y gwersi o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau;
- lefelau uchel y disgyblion o ran lles, synnwyr sydd wedi'i ddatblygu'n dda o'r ysgol fel cymuned, ac agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- y cwricwlwm eang a chytbwys a gefnogir gan raglen allgyrsiol helaeth ac amrywiol;
- y lefel uchel o ofal a chymorth sy'n cyfrannu'n effeithiol at safonau a lles y disgyblion, ac at ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol; a'r
- gymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar lle mae amrywiaeth yn cael ei pharchu, a'r cyfleoedd gwerthfawr sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion i archwilio a dathlu diwylliannau eraill.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol ar y cyfan oherwydd:

- mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd gan nad yw'r addysgu yn ennyn eu diddordeb nac yn eu herio'n llawn;
- nid yw strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'u cynllunio'n ddigon da; ac
- mae ansawdd y marcio, ac adborth i ddisgyblion, yn amrywio gormod.

## Rhagolygon gwella

Barnwyd bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y warden weledigaeth y mae'n ei chyfleu'n dda ar gyfer sicrhau dyfodol yr ysgol, ac mae'n darparu arweinyddiaeth bwrpasol a chyfeiriad clir i waith yr ysgol;
- mae'r strwythur rheoli diwygiedig yn helpu diffinio rolau, disgwyliadau a lefelau atebolrwydd yn gliriach;
- mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth realistig o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella; ac
- yn ddiweddar iawn, sefydlwyd diwylliant cadarnach o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol.

Fodd bynnag:

- mae llawer o'r prosesau a'r strwythurau newydd yn rhy ddiweddar i gael yr effaith a gynlluniwyd;
- nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n benodol ar safonau, ac nid yw'n rhoi blaenoriaeth nac yn amlinellu'n glir y camau sydd i'w cymryd yn y tymor byr; a
- chynnydd cyfyngedig y mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Mae arolygiadau o ysgolion annibynnol yn cael eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu gofyniad i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch y disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchenogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Safleoedd ac adeiladau preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr ymdrinnir â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella ansawdd yr addysgu i gyfateb i arfer orau yn yr ysgol, ac yn benodol, herio'r disgyblion mwy galluog

A3 Gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r asesu, fel bod disgyblion yn deall pa mor dda y maent yn gwneud ac yn cael cyngor clir sy'n eu helpu i wella

A4 Sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer gwella safonau ac ansawdd, a'u bod yn atebol am eu meysydd cyfrifoldeb

A5 Cynyddu trylwyrder a chysondeb y trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'r cynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion.  Cynghorir hefyd fod y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn cyflawni safonau da yn gyffredinol ar draws yr ysgol.

Mae data o brofion safonol a ddarparwyd gan yr ysgol yn dangos bod mwyafrif disgyblion yr ysgol baratoadol yn cyflawni safonau priodol mewn perthynas â'u hoedran a'u cyfnod datblygu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn arholiadau TGAU wedi bod yn dda dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Dengys data a ddarparwyd gan yr ysgol fod canran y disgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer arholiadau TGAU a gyflawnodd y trothwy lefel 2 a'r dangosydd pwnc craidd ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol hefyd. Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, mae dros 80% o ymgeiswyr wedi llwyddo i gael graddau A*-C, ac mae rhyw 60% o ymgeiswyr wedi llwyddo i gael y graddau A*-B uwch. Mae rhyw 35% wedi llwyddo i gael graddau A*/A. Mae'r ffigurau hyn ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2012, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Yn y cyfnod ôl-16, mae myfyrwyr yn cyflawni'n dda ac yn unol â'u gallu fwy neu lai. Yn 2012, roedd 64% o'r holl ymgeiswyr wedi llwyddo i gael graddau A*-B gyda 30% wedi ennill y graddau A*/A uchaf. Mae'r ffigurau hyn uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru.

Mae mesurau gwerth ychwanegol ar lefel TGAU a Safon Uwch dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol o gymharu â'u perfformiad blaenorol.

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol ym mherfformiad cymharol unrhyw grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u galluoedd.

Ym mwyafrif y gwersi a thros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn unol â'u galluoedd. Maent yn adalw eu gwybodaeth flaenorol yn dda ac yn datblygu dealltwriaeth sicr o gysyniadau a thestunau newydd. Maent yn cymhwyso'u dysgu blaenorol yn effeithiol i ddatrys problemau. Mewn llawer o wersi, fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy galluog yn gwneud digon o gynnydd.

Mae disgyblion o bob oed yn datblygu'u medrau cyfathrebu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon a safbwyntiau a barnau disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn hyderus ac yn glir, gan ddefnyddio ystod eirfa dda, ac mae'r mwyafrif yn mynegi'u syniadau'n groyw. Mae'r disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn yr ysgol baratoadol yn datblygu'u medrau darllen yn dda, er nad yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio ystod ddigon eang o strategaethau i ddatgodio geiriau. Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae disgyblion yn darllen yn fwy cywir a gyda mwy o ddealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau darllen amrywiaeth briodol o lyfrau. Erbyn iddynt gyrraedd cyfnod allweddol 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl gyda mwy o fynegiant, eglurder a dealltwriaeth. Maent yn dod o hyd i wybodaeth o ystod o destunau, ac mae llawer o ddisgyblion yn dewis ac yn dadansoddi gwybodaeth yn dda er mwyn llunio casgliadau rhesymegol a chytbwys. Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio rhesymiad yn dda, er enghraifft i wneud casgliadau priodol.

Mae disgyblion meithrin a derbyn yn deall fod ysgrifennu'n cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu, ar draws ystod eang o genres. Mae eu sillafu, atalnodi a'u gramadeg yn gywir yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 3, mewn ychydig o bynciau fel Saesneg a hanes, gall disgyblion o bob gallu gynhyrchu darnau gwaith estynedig addas sy'n dangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa a diben. Mae'r disgyblion mwy galluog yn cynhyrchu adroddiadau creadigol ac arfarnol â strwythur arbennig o dda iddynt, gan ddefnyddio atalnodi a gramadeg yn briodol. Ym mhob cyfnod allweddol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n ddigon da. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu, nid ydynt yn defnyddio gramadeg ac atalnodi'n gywir, ac nid ydynt yn cyflwyno'u gwaith yn dda.

Nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n ddigon da ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i ymchwilio, cyflwyno ac arddangos gwybodaeth i lefel briodol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn yr ysgol baratoadol sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu medrau llafar. Mae'r rheini sydd eisoes yn rhugl yn yr iaith yn siarad Cymraeg yn hyderus gydag oedolion. Fodd bynnag, wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, nid ydynt bob amser yn adeiladu'n ddigon da ar eu medrau presennol. Mae canlyniadau TGAU mewn Cymraeg yn dda, er mai cyfran gymharol fach o ddisgyblion sy'n dewis dilyn cyrsiau TGAU yn y pwnc.

Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae llawer o ddisgyblion yn symud ymlaen at addysg uwch ar ddiwedd y chweched dosbarth.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n iach trwy ddeiet ac ymarfer corff rheolaidd. Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol yn uchel. Gwna llawer o ddisgyblion ddefnydd arbennig o dda o'r amrywiaeth o weithgareddau, ac maent yn cyflawni safonau uchel, er enghraifft o ran datblygu'u diddordebau chwaraeon a diddordebau diwylliannol. Y llynedd, llwyddodd pump ar hugain o ddisgyblion i ennill Gwobr Aur Dug Caeredin.

Mae cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb yn dda. Mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, a dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn gwrtais ac yn foesgar, yn groesawgar i ymwelwyr ac yn dangos eu bod yn pryderu am bobl eraill. Mae lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel.

Mae gan y disgyblion synnwyr sydd wedi'i ddatblygu'n dda o'r ysgol fel cymuned. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau buddiol yn y gymuned leol. Mae cyngor yr ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi dylanwadu ar newidiadau i'r diwrnod ysgol a bwydlenni yn y ffreutur. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cyfrannu fel mater o arfer at benderfyniadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu a sut. Yn eu gwaith, fel swyddogion, mentoriaid i ddisgyblion iau, arweinwyr chwaraeon neu swyddogion yn y Llu Cadetiaid Cyfunol, er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn ysgwyddo amrywiaeth o gyfrifoldebau, yn cynnig modelau rôl da ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad cryf yr ysgol o gymuned.

Mae disgyblion yn cydweithio'n dda mewn grwpiau a pharau, i ddatrys problemau a thrafod materion er enghraifft, ac maent yn dangos parch at syniadau a safbwyntiau pobl eraill. Pan fo cyfleoedd addas, mae llawer o ddisgyblion yn gallu gweithio'n dda yn annibynnol ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu ac ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn. Mae'r ysgol baratoadol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu academaidd yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol i'r disgyblion. Mae cwricwlwm yr ysgol uwchradd yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ennill cymwysterau perthnasol, ar draws ystod briodol o gyrsiau TGAU a Safon Uwch, ac i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cyfnod dysgu nesaf.

Mae'r defnydd a wneir o arbenigwyr pwnc yn yr ysgol baratoadol yn galluogi disgyblion i gyflawni'n dda mewn ychydig o bynciau fel cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Nid yw'r trefniadau pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi'u datblygu'n ddigon da, fodd bynnag, yn enwedig i lywio camau nesaf disgyblion mewn dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae diffyg manylder yn y cynlluniau gwaith ac nid ydynt yn sicrhau parhad a dilyniant priodol yn y dysgu. Yn benodol, nid yw'r staff yn cynllunio'n systematig i gynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Mae rhaglen allgyrsiol helaeth ac amrywiol. Caiff y disgyblion gyfleoedd eithriadol o dda i gyfranogi a rhagori mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chreadigol. Mae'r gweithgareddau hyn, ynghyd â chyfranogiad disgyblion yn y Llu Cadetiaid Cyfunol a Gwobr Dug Caeredin, yn cyfrannu'n arbennig o dda at ddatblygu medrau personol a chymdeithasol y disgyblion, a'u lles.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth gref o ddiwylliant Cymru, trwy ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod flynyddol, yr Urdd ac ymweliad preswyl â Llangrannog i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7. Mae llawer o gynlluniau gwaith yn cynnwys cyfeiriadau perthnasol at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau iaith Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.

Mae trefniadau addas i ddisgyblion ddatblygu'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, trwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Yn ddiweddar, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod rhyngwladol llwyddiannus a bwysleisiodd ei threftadaeth Gymreig, tra hefyd yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol gyfoethog cymuned yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'r disgyblion ac yn darparu cymorth ac arweiniad defnyddiol sy'n galluogi'r disgyblion i oresgyn anawsterau a magu mwy o hyder. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae'r addysgu yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon:

- yn dangos gwybodaeth bynciol sicr;
- yn gosod amcanion clir ac yn cynllunio gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol;
- yn ennyn diddordeb y disgyblion, er enghraifft, trwy ddefnyddio adnoddau ysgogol, ac yn eu helpu i ddatblygu'u medrau penodol i bwnc a'u medrau ehangach; ac
- yn rhoi esboniadau clir ac yn defnyddio techneg holi yn dda i ymestyn dealltwriaeth y disgyblion o gysyniadau a materion penodol.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio'n arbennig o dda, er enghraifft, i ystyried arddulliau dysgu gwahanol y disgyblion, neu i gynnig cyfleoedd i'r disgyblion weithredu fel mentoriaid cyfoedion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau cyfathrebu ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r testun penodol.

Mewn lleiafrif sylweddol o wersi, nid yw'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy galluog, yn gwneud digon o gynnydd. Y rhesymau amlaf am hyn yw:

- mae cyflymder y gwersi'n rhy araf;
- nid yw cysyniadau neu brosesau'n cael eu hesbonio'n glir;
- nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r disgyblion; ac
- nid yw gweithgareddau dysgu yn addas o heriol neu wedi'u haddasu'n briodol i ddiwallu anghenion y disgyblion.

Yn y gwersi hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol, er enghraifft i gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig estynedig, neu i weithio mewn grwpiau bach i ddatblygu'u medrau cyfathrebu, rhannu eu syniadau a datrys problemau.

Mae ansawdd y marcio ac adborth i ddisgyblion yn amrywio gormod. Mae pob un o'r athrawon bron yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, mae sylwadau'r athrawon yn darparu adborth manwl sy'n galluogi'r disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw'r adborth yn rhoi syniad ddigon clir i'r disgyblion o'r safonau y maent yn eu cyflawni a sut i wella. Nid yw'r athrawon bob amser yn herio gwaith sydd heb ei orffen neu waith sydd wedi'i gyflwyno'n wael. Cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Mae'r athrawon yn dechrau monitro cynnydd y disgyblion yn fwy trwyadl gan ddefnyddio asesiadau rheolaidd a system olrhain yr ysgol a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn i nodi tangyflawni ac anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion, ac i drefnu camau gweithredu priodol.

Caiff rhieni wybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae adroddiadau bob tymor yn rhoi gwybodaeth fanwl am gynnydd ac ymdrech y disgyblion. Yn y mwyafrif o achosion, mae sylwadau'r athrawon yn dweud sut y gall disgyblion wella agweddau ar eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo lles y disgyblion ac i gefnogi'u hiechyd a'u lles. Caiff disgyblion eu hannog i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, a chynigir cyfleoedd helaeth iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon tîm a chwaraeon unigol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda drwy'r cwricwlwm, ei threfniadau bugeiliol, profiadau preswylio a'r rhaglen o weithgareddau allgyrsiol.

Mae disgyblion a'u teuluoedd yn cael cymorth unigol priodol ar faterion addysgol a materion eraill. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r arweiniad defnyddiol a gânt pan fyddant yn dewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth ymgeisio am leoedd prifysgol yn y chweched dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas yn gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn yr ysgol baratoadol yn defnyddio profion ac asesiadau athrawon yn fwy hyderus i nodi anghenion unigol y disgyblion. Mae'r disgyblion y nodir bod anghenion ganddynt yn cael cymorth effeithiol targedig sy'n eu helpu i wella'u medrau llythrennedd sylfaenol. Mae trefniadau cadarn ar waith i nodi anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion hynny sy'n ymuno â'r ysgol yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn cael ymyrraeth a chymorth unigol priodol.

Mae cynlluniau addysg unigol priodol gan y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, er nad ydynt bob amser yn rhoi digon o ystyriaeth i farnau'r disgyblion. Mae'r staff cymorth yn defnyddio'r cynlluniau hyn yn effeithiol mewn sesiynau un-i-un. Fodd bynnag, er bod athrawon pwnc yn ymwybodol o anghenion penodol y disgyblion fel arfer, nid ydynt bob amser yn defnyddio cynlluniau addysg unigol yn ddigon da i ddarparu gweithgareddau sy'n cyfateb i anghenion y disgyblion. Mae'r

adborth i rieni ynglŷn â chynnydd y disgyblion hyn yn rheolaidd ac yn briodol. Nid yw systemau olrhain yn galluogi'r ysgol i fesur cynnydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon cywir o'u mannau cychwyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar lle caiff amrywiaeth ei chydnabod a'i pharchu. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i astudio a dathlu diwylliannau eraill. Mae ethos yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo datblygiad deallusol, artistig, chwaraeon, ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydnabod, yn meithrin ac yn gwerthfawrogi galluoedd unigol y disgyblion. Caiff pob disgybl fynediad cyfartal i'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth allgyrsiol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i hadeiladau. At ei gilydd, mae digon o adnoddau i ddiwallu anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw mynediad at adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu bob amser yn ddigon dibynadwy i gefnogi'r dysgu'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent yn cynnig amgylchedd dysgu croesawgar. Mae mwyafrif yr ystafelloedd dosbarth yn cynnwys arddangosfeydd deniadol sy'n cefnogi'r dysgu ac yn dathlu cyflawniadau'r disgyblion. Mae tir yr ysgol a'r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon yn helaeth ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb a hygyrchedd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Cyn ail-lansio'r ysgol y llynedd, nid oedd yr uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad ddigon clir nac yn sicrhau lefelau atebolrwydd priodol i wella safonau a mynd i'r afael â diffygion yn y ddarpariaeth.

Ers ei benodi y llynedd, mae'r warden newydd wedi arwain yr ysgol yn effeithiol trwy gyfnod anodd iawn. Mae ganddo weledigaeth glir y mae'n ei chyfleu'n dda ar gyfer sicrhau dyfodol yr ysgol, ac mae hynny wedi cyfrannu at fwy o ymdeimlad o sefydlogrwydd ymhlith rhieni a'r staff. Mae'r warden yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad pwrpasol i waith yr ysgol. Mae'r arweinyddiaeth hon, ac ymrwymiad i gefnogi'r staff, ond hefyd i herio tanberfformio, yn ffactorau pwysig o ran cyflawni amcanion strategol yr ysgol.

Ers Medi 2012, mae'r warden wedi cyflwyno strwythur rheoli diwygiedig a chadarnach ar gyfer yr ysgol uwchradd. Mae hwn wedi'i seilio ar system cyfadrannau, ac mae'n darparu lefel uwch o arweinyddiaeth wasgaredig. Erbyn hyn

mae gan y rhan fwyaf o'r arweinwyr a'r rheolwyr rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir sy'n rhoi ffocws priodol i wella safonau a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw rolau arweinyddiaeth yn yr ysgol baratoadol wedi'u diffinio'n ddigon da. Mae'r ysgol hefyd wedi cryfhau ei pholisïau a'i gweithdrefnau i roi mwy o gyfeiriad ac mae wedi pennu disgwyliadau clir ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar ei gwaith. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gwneud cynnydd digonol wrth gyflawni'u rolau rheoli, er enghraifft, trwy ddarparu cymorth ac arweiniad defnyddiol i staff newydd.

Mae swydd-ddisgrifiadau perthnasol a chyfoes gan lawer o'r staff. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad pob aelod o staff. Mae'r trefniadau hyn yn nodi targedau ar gyfer gwella ac maent yn cynyddu lefelau atebolrwydd.

Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y newidiadau hyn ar strwythurau rheoli ac effaith cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad mwy systematig ar safonau a lles y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol newydd yn ymroddedig i gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol a chynnig synnwyr o gyfeiriad i'w gwaith. Mae wedi datblygu cynlluniau cydlynus i ddod â sefydlogrwydd i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn craffu ar gyllid yr ysgol yn ofalus.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cyfyngedig o ran sefydlu trefniadau hunanarfarnu a threfniadau cynllunio gwelliant mwy systematig a chynhwysfawr. Fodd bynnag, yn ddiweddar iawn mae'r warden ac uwch arweinwyr wedi gweithredu'n bwrpasol i sefydlu diwylliant cadarnach o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol.

Mae dealltwriaeth glir gan yr uwch arweinwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n gynhwysfawr, yn arfarnol yn gyffredinol ac yn realistig. Mae'n datgan yn glir beth yw'r meysydd lle bu diffygion pwysig, yn enwedig o ran parhad ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, ac effeithiolrwydd asesu a monitro cynnydd disgyblion.

Mae dull ffocysedig ar waith i ymgynghori'n eang, a rhoddir pwyslais cynyddol ar ystyried barnau disgyblion a rhieni. Cyflwynwyd rhaglen systematig o arsylwi gwersi, ac mae honno, ynghyd â chraffu'n fwy rheolaidd ar waith disgyblion, yn darparu tystiolaeth gadarnach ynglŷn ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, datblygiadau cymharol newydd yw'r rhain ac nid ydynt wedi'u sefydlu'n llawn eto.

Mae'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn llunio adroddiadau hunanarfarnu defnyddiol. Yn gyffredinol, mae gan y rheolwyr canol hyn ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Nid yw ychydig o adroddiadau yn arfarnu data perfformiad yn drwyadl, ac nid ydynt yn arfarnu agweddau pwysig eraill yn ddigon da.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn llawn gweledigaeth ac yn cynnig trosolwg strategol eang o dargedau a mentrau arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Mae'n adlewyrchu'n briodol y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu. Er bod y cynllun yn darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer datblygiad tymor canolig yr ysgol, nid yw'n canolbwyntio'n benodol ar safonau ac nid yw'n rhoi blaenoriaeth nac yn amlinellu'n glir y camau sydd i'w cymryd yn y tymor byr.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwella pwnc a meysydd yn amlinellu camau gweithredu defnyddiol i godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mewn ychydig o achosion, mae gormod o dargedau; nid yw'r meini prawf llwyddo yn ddigon penodol ac nid oes modd eu mesur. Yn rhy aml, nid yw'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau hyn a chynllun datblygu'r ysgol yn ddigon clir.

Cynnydd cyfyngedig yn gyffredinol mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Nid aethpwyd i'r afael yn llawn a'r argymhellion yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu, gwella cynllunio ar gyfer datblygu medrau allweddol disgyblion, a sicrhau parhad gwell yn nysgu'r disgyblion, yn enwedig rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Er bod yr ysgol yn cyfranogi mewn nifer o weithgareddau mewnol ac allanol i gefnogi datblygiad proffesiynol, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhan fwyaf ohonynt ac nid ydynt wedi cael effaith amlwg ar ansawdd y ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i wella deilliannau a lles y disgyblion. Mae partneriaeth arbennig o gadarn gydag academïau rygbi rhanbarthol i gefnogi datblygu perfformwyr elitaidd a darparu modelau rôl cymhellgar i'r disgyblion. Mae tua hanner y disgyblion yn elwa ar eu cyfranogiad yn y Llu Cadetiaid Cyfunol a Chynllun Gwobr Dug Caeredin. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu datblygu eu hunanddibyniaeth, eu dyfeisgarwch, eu medrau arweinyddiaeth ac ymdeimlad o wasanaeth i'r gymuned.

Mae gweinidog o'r Eglwys yng Nghymru yn cynnal gwasanaethau wythnosol yn y capel. Mae côr yr ysgol yn perfformio mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, yng ngwasanaeth Adfent yr eglwys leol.

Mae'r partneriaethau â rhieni yn dda. Caiff rhieni wybodaeth yn gyson am ddatblygiadau yn yr ysgol trwy gylchlythyrau rheolaidd a gwefan yr ysgol. Maent yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon, a chânt eu hannog i gymryd rhan weithgar ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae partneriaethau gydag ychydig o ysgolion eraill yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn darparu addysgu Cymraeg ar lefel Safon Uwch, ac yn trefnu cwrs arwain chwaraeon ar gyfer disgyblion o ysgolion lleol eraill a gynhelir.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol gyda Gyrfa Cymru i gefnogi lles ac ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd gwaith.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Fe wnaeth diffygion yn rheolaeth yr ysgol ar ei chyllid arwain at ddiddymu'r ysgol yn Awst 2012. Ers ail-lansio'r ysgol, mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi rheoli'i chyllid yn ochelgar gyda chyllidebu strategol gofalus. Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r holl wariant yn fanwl.

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o staff tra chymwys sydd yn gyffredinol yn cael eu defnyddio'n briodol i ddiwallu anghenion y disgyblion. Er mai cyllideb gyfyngedig sydd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu, defnyddiwyd hon yn briodol, er enghraifft, i adolygu strategaethau asesu ac i sicrhau bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn bodloni gofynion. Ar hyn o bryd, nid yw cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol yn cael ei ddyrannu'n ddigon manwl i flaenoriaethau a nodwyd drwy hunanarfarnu neu adolygiadau rheoli perfformiad, ac nid yw wedi cael digon o effaith ar wella darpariaeth a chodi safonau.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniodd Estyn 142 o ymatebion gan ddisgyblion. O'r rhain, mae 42 disgybl yn yr adran baratoadol o'r ysgol, ac mae 100 yn yr adran uwchradd.

Ym mhob achos bron, mae ymatebion y disgyblion yn yr adran baratoadol yn fwy cadarnhaol neu'n unol â meincnodau cenedlaethol fwy neu lai. Yn yr adran uwchradd, mae ymatebion y disgyblion i lawer o gwestiynau fwy neu lai'n unol â meincnodau cenedlaethol, ond mae'r disgyblion hyn yn rhoi ymatebion ychydig yn llai cadarnhaol ynglŷn ag ychydig o agweddau ar waith yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion yn yr adran baratoadol, a llawer o ddisgyblion yn yr adran uwchradd, o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn y ddwy adran o'r ysgol yn dweud bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu cwblhau eu gwaith.

Yn yr adran baratoadol, mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda, a dywedant fod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn dweud eu bod yn gwybod beth i wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, neu os ydynt yn poeni neu'n pryderu, a bod yr ysgol yn eu helpu i gadw'n iach. Mae pob un o'r disgyblion bron o'r farn fod ganddynt ddigon o adnoddau a llyfrau i wneud eu gwaith, a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Yn yr adran uwchradd, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda, a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Dywed pob un o'r disgyblion bron fod digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod y staff yn eu parchu nhw a'u cefndir, a bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu amrywiaeth. Dywed y rhan fwyaf o'r disgyblion bod ganddynt rywun i siarad â nhw os ydynt yn pryderu.

Mae'r holl ddisgyblion bron o'r farn eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, a dywed y rhan fwyaf fod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Cred lawer o ddisgyblion fod ganddynt ddigon o adnoddau a llyfrau i wneud eu gwaith, ond mae rhyw chwarter o'r disgyblion yn anghytuno. Dywed y mwyafrif o ddisgyblion fod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu, ond mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, yn llai cadarnhaol ynglŷn â'r agwedd hon ar waith yr ysgol.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 41 o ymatebion i'r holiadur i rieni. O'r rhai a ymatebodd, rhoddodd dros bedair rhan o bump o'r rhieni ymateb cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i bob

cwestiwn.  At ei gilydd, mae ymatebion y rhieni fwy neu lai'n unol â meincnodau cenedlaethol.

Mae llawer o'r rhieni a ymatebodd yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol, a chred y rhan fwyaf ohonynt fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.  Mae'r holl rieni a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, a bod eu plentyn wedi cael help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.  Dywed pob un ohonynt bron fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n dweud bod staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed a gwneud eu gorau, fod ansawdd yr addysgu'n dda, a bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.  Dywed pob rhiant bron fod y disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae llawer o rieni'n dweud bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae llawer o rieni'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau, ac maent yn dweud eu bod yn cael gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plentyn.

Teimla'r holl rieni bron fod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau, a bod eu plentyn yn cael ei annog/hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff.  Dywed pob rhiant bron fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.  Mae llawer o rieni'n cytuno bod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer y cyfnod pan fyddant yn gadael yr ysgol.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| John Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Richard Hawkley | Arolygydd Tîm |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Andrew Herdman | Arolygydd Tîm |
| Jennifer Williams | Arolygydd Lleyg |
| Michelle Gosney | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Jones | Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003: 3 a 5 |
| Debbie Rockey | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Perchennog | Mae'r term 'perchennog', fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1996, yn golygu'r unigolyn neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol a gall gynnwys unig berchennog, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r ffyrdd y caiff ysgolion annibynnol eu llywodraethu a'u perchnogi yn amrywio'n fawr. Gallai perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu gallai'r ysgol gael corff llywodraethol sy'n penodi pennaeth. Mae cyfuniad o'r rhain mewn rhai ysgolion. |